Cyflwynwyd yr ymateb hwn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)

This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee on the Residential Outdoor Education (Wales) Bill

**ROE 18**
**Ymateb gan: Iechyd Cyhoeddus Cymru**
**Response from: Public Health Wales**

---

# Ymateb i'r Ymgynghoriad ar y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)

**Pa mor bwysig yw addysg awyr agored breswyl i ddatblygiad plant a phobl ifanc?**

Wrth ysgrifennu'r ymateb hwn buom yn ystyried y term datblygiad o safbwynt iechyd a lles gan ganolbwyntio ar ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol a chorfforol sydd ynddo'i hun yn cyfeirio at ystod eang o brosesau datblygiadol.

Wrth ateb y cwestiwn hwn bu'n her dod o hyd i dystiolaeth sy'n gallu gwahaniaethu rhwng gwerth profiadau dysgu awyr agored y gellir eu cyflwyno drwy weithgareddau arferol y cwricwlwm o ddydd i ddydd a gweithgareddau dydd ac effaith ychwanegol benodol profiad preswyl, os oes un.

Mae rhywfaint o dystiolaeth bod addysg awyr agored yn gefnogol i ddatblygiad plant a phobl ifanc o ran cyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgarwch corfforol yn ogystal â manteision ehangach posibl fel gwell hunan-barch a hunanhyder drwy ddatrys problemau a rhyngweithio cymdeithasol cadarnhaol.

O ran gwell deilliannau dysgu mae adolygiad o dystiolaeth y Gronfa Gwaddol Addysg yn dod i'r casgliad bod 'y sylfaen dystiolaeth gyfredol ar anturiaethau awyr agored a deilliannau academaidd yn wan iawn'.[1] Yn benodol, mae'r sylfaen dystiolaeth sy'n cysylltu sgiliau nad ydynt yn wybyddol, y gellir eu hennill drwy addysg awyr agored a budd cyrhaeddiad a geir, o bosib, drwy gymhwyso sgiliau nad ydynt yn wybyddol yn yr ystafell ddosbarth, yn wan. Byddai datblygiad sgiliau nad ydynt yn wybyddol yn un o'r mecanweithiau allweddol lle y byddai iechyd a lles, yn enwedig iechyd meddwl a lles, yn elwa ar yr ymyriadau hyn.

Fodd bynnag, o'r dystiolaeth sydd ar gael nid yw'n bosibl, yn ein barn ni, i ynysu cyfraniad penodol addysg awyr agored 'breswyl' o gymharu â dysgu awyr agored dibreswyl i ddatblygiad plant a phobl ifanc oherwydd amryw o ffactorau.

Ychydig iawn o waith ymchwil sydd ar gael, ac mae'r astudiaethau sy'n bodoli yn ystyried gwahanol ddeilliannau, amrywiadau yn y poblogaethau a astudiwyd (er enghraifft ystod oedran a grwpiau agored i niwed penodol wedi'u targedu, a phrinder amlwg o dystiolaeth yn ymwneud â chyfnodau addysg gynradd[2],[3]) ac yn bwysig, amrywiad sylweddol o ran yr ymyriad ei hun sy'n ei gwneud yn anodd cymharu'n uniongyrchol.

---

[1] Outdoor adventure learning | EEF (educationendowmentfoundation.org.uk)
[2] Gutman, LM a Schoon, I (2013) The impact of non-cognitive skills on outcomes for young people. Literature Review. Institute for Education, University of London
[3] Fiennes et al (2015) The Existing Evidence Base for the Effectiveness of Outdoor Learning. Hydref 2015. Giving Evidence.

Mae'n bwysig ystyried pryd, i bwy, ac ym mha gyd-destun y ceir y manteision gorau posibl o addysg breswyl awyr agored. Er enghraifft, mae DeWitt a Storksdieck (2008)[4] yn archwilio'r math o ddeilliannau dysgu sy'n gysylltiedig â theithiau maes ac yn dod i'r casgliad bod y buddion cymharol o gymharu ag addysg ystafell ddosbarth yn amrywiol yn ddibynnol ar ddiben a chyflwyniad y rhaglen. Mae hyn yn codi pwynt hollbwysig arall bod angen inni, er mwyn deall pwysigrwydd addysg awyr agored breswyl i ddatblygiad plant a phobl ifanc, ei hystyried mewn perthynas ag ystod o ddewisiadau eraill gan gynnwys, er enghraifft, cymharu cyfleoedd untro ag ymgysylltu rheolaidd drwy fentrau fel mudiad y Sgowtiaid[3]. Yn ein barn ni, nid yw hyn wedi cael ei ystyried yn llawn eto ac ychydig o dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi cymhariaeth.

**Beth yw'r prif fanteision iechyd i blant a phobl ifanc o gael profiad o gwrs preswyl addysg awyr agored?**

Mae rhywfaint o dystiolaeth y gallai addysg awyr agored neu addysg seiliedig ar natur, nid un preswyl ei natur o reidrwydd, gyfrannu at[5,6,7,8,9,10]:

- **Lles Seicolegol Gwell:** Mae'r amser sy'n cael ei dreulio ym myd natur wedi'i gysylltu â llai o orbryder a straen, canolbwyntio gwell, a lles seicolegol gwell
- **Mwy o Weithgarwch Corfforol:** Mae addysg awyr agored yn lleihau ymddygiad llonydd ac yn rhoi cyfleoedd i wneud mwy o weithgarwch corfforol
- **Datblygiad Cymdeithasol ac Emosiynol:** Mae addysg awyr agored yn hybu sgiliau cymdeithasol, gwaith tîm, ac ymddygiad rhag-gymdeithasol, a gall gefnogi i ddatblygu delwedd gadarnhaol o'r corff a hyder mewn cymhwysedd corfforol

[4] Jennifer DeWitt & Martin Storksdieck (2008) A Short Review of School Field Trips: Key Findings from the Past and Implications for the Future, Visitor Studies, 11:2, 181-197, DOI: 10.1080/10645570802355562

[5] Mall, Christoph & Lauterbach, Gabriele & Spengler, Sarah & Dettweiler, Ulrich & Mess, Filip. (2017). Effects of Regular Classes in Outdoor Education Settings: A Systematic Review on Students' Learning, Social and Health Dimensions. International Journal of Environmental Research and Public Health. 14. 10.3390/ijerph14050485.

[6] Tillmann S, Tobin D, Avison W, *et al.* Mental health benefits of interactions with nature in children and teenagers: a systematic review. *J Epidemiol Community Health* 2018;72:958-966.

[7] Fang, B.-B., Lu, F. J. H., Gill, D. L., Liu, S. H., Chyi, T., & Chen, B. (2021). A Systematic Review and Meta-Analysis of the Effects of Outdoor Education Programs on Adolescents' Self-Efficacy. Perceptual and Motor Skills, 128(5), 1932-1958. https://doi.org/10.1177/00315125211022709

[8] Lærke Mygind, Eva Kjeldsted, Rikke Hartmeyer, Erik Mygind, Mads Bølling, Peter Bentsen, Mental, physical and social health benefits of immersive nature-experience for children and adolescents: A systematic review and quality assessment of the evidence, Health & Place, Volume 58,2019, 102136, https://doi.org/10.1016/j.healthplace.2019.05.014.

[9] Links between natural environments and learning: evidence briefing - EIN017 (naturalengland.org.uk)

[10] Mann J, Gray T, Truong S, Brymer E, Passy R, Ho S, Sahlberg P, Ward K, Bentsen P, Curry C and Cowper R (2022) Getting Out of the Classroom and Into Nature: A Systematic Review of Nature-Specific Outdoor Learning on School Children's Learning and Development. *Front. Public Health* 10:877058. doi: 10.3389/fpubh.2022.877058

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod maint yr effaith ar boblogaethau oedran ysgol yn fach i ganolig a bod rhywfaint o dystiolaeth bod rhai deilliannau'n cael eu cynnal dros amser. Mae'n bwysig nodi, o'r sylfaen dystiolaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni, bod gorgyffwrdd sylweddol rhwng adrodd ar ddysgu/addysg awyr agored neu gysylltiad â byd natur A dysgu/addysg awyr agored **breswyl** a bod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn ystyried addysg awyr agored yn ehangach yn hytrach nag addysg breswyl fel is-gategori. Mae angen dadansoddiad manwl i ddeall i ba raddau y mae'r buddion yn debygol o gael eu priodoli i **ddysgu awyr agored yn yr ysgol a dysgu sy'n seiliedig ar y cwricwlwm** yn gyffredinol, **cyfleoedd sy'n cysylltu â natur** yn yr ysgol neu y tu allan i'r ysgol a'r elfen **breswyl** benodol.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn tynnu sylw at fanteision 'sefydledig' addysg awyr agored ac yn cyfeirio at ymchwil gan Lywodraeth Cymru sy'n archwilio addysg awyr agored yn ei hystyr ehangach ac yn awgrymu bod y gwerth yn cael ei chwyddo drwy'r profiad preswyl. Yn ein barn ni, nid yw'r sylfaen dystiolaeth bresennol yn ddigon i briodoli'n hyderus fudd ychwanegol yn benodol i'r elfen breswyl y tu hwnt i'r dewisiadau amgen.

Gall manteision ehangach hefyd ddibynnu ar ansawdd y profiad a bod y profiad yn gweddu'n briodol i anghenion a diddordebau'r plant a'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan (gan nodi'r cyfyngiadau o ran cymhwyso'r canfyddiadau o astudiaethau poblogaeth wedi'u targedu i holl blant a phobl ifanc Cymru). Er enghraifft, dim ond trwy gynnig maeth cyson o ansawdd uchel y gallai'r budd o ran maeth gael ei wireddu, tra bo manteision gweithgarwch corfforol a lles emosiynol a meddyliol yn debygol o gael eu cyfryngu gan ffactorau unigol sy'n gysylltiedig â'r dysgwr (hygyrchedd a chyfleoedd ehangach er enghraifft).

Mae tystiolaeth yn dangos bod cysylltiad â natur yn tueddu i fod yn gryf ymysg plant ifanc ond ei fod yn gostwng yn sydyn rhwng 10-15 oed ac ond yn gwella'n ddiweddarach pan fyddant yn oedolion.[11]. Mae hyn yn arwydd o'r manteision o gynyddu cyfleoedd i bobl ifanc feithrin cysylltiadau â natur drwy gyfleoedd dysgu awyr agored ond gellir cynnwys y rhain yng ngweithgarwch y cwricwlwm o ddydd i ddydd ac nid oes angen elfen breswyl arnynt. Gall cyfleoedd cyson rheolaidd fod yn fwy effeithiol nag un digwyddiad unigol.

**Beth yw'r prif rwystrau sy'n atal plant a phobl ifanc rhag mynd ar ymweliad addysg awyr agored breswyl?**

Mae hyn wedi cael ei archwilio yn yr ymgynghoriad ac mae'n cynnwys:

[11] Richardson M, Hunt A, Hinds J, Bragg R, Fido D, Petronzi D, Barbett L, Clitherow T, White M. A Measure of Nature Connectedness for Children and Adults: Validation, Performance, and Insights. Sustainability. 2019; 11(12):3250. https://doi.org/10.3390/su11123250

**Rhwystrau Ariannol**: Ni fydd y rhain yn cael eu cyfyngu i gostau a oresgynnir trwy gynnig cyffredinol am ddim a byddant yn cynnwys, er enghraifft, sicrhau bod gan gyfranogwyr y dillad priodol, y posibilrwydd o wario arian a newidiadau posibl i drefniadau gofal plant sy'n bodoli.

**Rhwystrau daearyddol:** gan gynnwys pellter o'r cartref neu'r ysgol i ganolfan breswyl wedi'i waethygu gan argaeledd daearyddol canolfannau preswyl awyr agored priodol a mynediad amrywiol at gludiant dibynadwy.

**Rhwystrau personol (plentyn)**: a fydd yn amrywiol a gallant gynnwys fel enghreifftiau, gyfranogiad, gorbryder cymdeithasol neu orbryder ynghylch gwahanu, rhwystrau sy'n gysylltiedig â dieithrwch lleoliad neu anwybodaeth ynghylch gweithgarwch, rhwystrau sy'n gysylltiedig ag anghenion corfforol neu emosiynol megis deiet arbenigol, meddyginiaeth, hygyrchedd a niwroamrywiaeth .

**Rhwystrau personol (oedolyn):** a fydd eto'n amrywiol ac, yn ogystal â gorbryder rhieni a rhwystrau ariannol cysylltiedig, gallant gynnwys gyfrifoldebau gofalu a rhwystrau sy'n gysylltiedig â phellter daearyddol.

**A ddylai plant a phobl ifanc gael y cyfle i fynd ar gwrs preswyl addysg awyr agored ac, os felly, a ddylai fod yn rhad ac am ddim i bawb?**

Mae'r sylfaen dystiolaeth o ran budd dysgu awyr agored preswyl, yn enwedig o gymharu â phrofiadau ac anghenion dysgu posibl eraill, yn ei gwneud yn anodd cefnogi'r Bil. Mae'r amgylchedd ariannol hefyd yn ystyriaeth bwysig ac mae llawer o bwysau ar gyllidebau ar bob lefel yn y system. Mae nifer o feysydd dysgu a chymorth dysgu sylfaenol eraill nad ydynt yn cael eu bodloni ar hyn o bryd sy'n debygol o gael eu hystyried yn fwy o flaenoriaeth na hyn.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gefnogol i brofiadau dysgu awyr agored ac mae'n awyddus i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu ymhellach y sylfaen dystiolaeth ar gyfer y gwaith hwn. Serch hynny, o ystyried daearyddiaeth Cymru, ein barn ni yw y gellir manteisio ar y cyfleoedd hyn heb fod angen elfen breswyl.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn cydnabod budd amser preswyl oddi cartref ar gam datblygu priodol. Fodd bynnag, gellid darparu hyn ochr yn ochr â nifer o gyfleoedd, ac mae dysgu yn yr awyr agored ond yn un ohonynt.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, er hynny, yn cydnabod pwysigrwydd tlodi ar iechyd a lles plant a phobl ifanc. Un o'r enghreifftiau mwyaf gweladwy yw bod gan y plant hynny o gefndiroedd mwy difreintiedig lai o fynediad at brofiadau a chyfleoedd ehangach. Mae'n bwysig bod ysgolion yn ystyried effaith teithiau ysgol dewisol, yn enwedig y rhai hynny sydd ag elfen breswyl yn perthyn iddynt, ar ehangu anghydraddoldebau ac ar yr effaith feddyliol ac emosiynol ar y plant hynny a'u teuluoedd nad ydynt yn gallu manteisio ar y cyfleoedd hyn.

**Canfu ymgynghoriadau ar y Bil drafft mai'r rhwystrau mwyaf i blant a phobl ifanc rhag cael mynediad i addysg awyr agored breswyl, ar ôl cyfyngiadau ariannol, yw gorbryder ac ansicrwydd plant a rhieni. Beth yw eich barn ar hyn, a beth y gellir ei wneud i fynd i'r afael â'u pryderon?**

Mae'n debygol y bydd angen dull unigol i ddeall gorbryder plant neu rieni sy'n ymwneud â chael mynediad i blant a phobl ifanc at gyfleoedd dysgu awyr agored preswyl er mwyn cynyddu'r nifer o blant sy'n manteisio ar y cynnig. Mae'n debygol hefyd y bydd y gorbryder wedi cynyddu i rai plant a theuluoedd yn dilyn y pandemig.

Gall rhoi sicrwydd ynghylch y manteision y gellir eu cyflawni o brofiadau preswyl hefyd helpu i leddfu pryderon rhieni/gofalwyr. Mae astudiaethau wedi canfod y gall cael profiadau preswyl helpu i hybu hunan-effeithiolrwydd, locws rheolaeth, ymdeimlad o gymuned ac o berthyn, sy'n dylanwadu ar les meddyliol[12].

Mae sicrhau bod staff sy'n arwain profiadau preswyl yn meddu ar y sgiliau a'r profiad priodol yn y maes hwnnw hefyd yn bwysig. Mae dealltwriaeth o anghenion y dysgwyr yn hollbwysig ynghyd â phrofiad a barn broffesiynol o ran gwybod sut i ymateb i amgylchiadau gwahanol a all godi.

**Sut y gellir diwallu anghenion pob plentyn er mwyn iddynt allu cymryd rhan lawn mewn addysg awyr agored breswyl? Yn benodol, plant ag anabledd corfforol, problemau iechyd meddwl gan gynnwys gorbryder, a'r plant hynny ag anghenion dysgu ychwanegol?**

Mae hwn yn gwestiwn cymhleth a bydd yr ymateb yn dibynnu ar anghenion y plentyn unigol a'i deulu. Byddai angen cymorth tîm amlddisyblaethol i gynllunio a chyflwyno dysgu awyr agored a dysgu preswyl i ddisgyblion ag anghenion penodol.

**Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi: "gallai manteision iechyd meddwl a lles rhaglenni preswyl addysg awyr agored leihau'r galw ar wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yn y dyfodol agos a gallai hefyd leihau'r galw ar y GIG yn ehangach a'r gwasanaethau gofal iechyd yn y tymor hwy". Beth yw eich barn am y datganiad hwn a'r tebygolrwydd y bydd rhoi'r cyfle i bob plentyn gael addysg awyr agored breswyl yn arwain at lai o alwadau ar y GIG?**

Mae problemau iechyd meddwl a chorfforol yn tarddu o elfennau cymhleth ac amlochrog. Er bod tystiolaeth, efallai, y gall dysgu yn yr awyr agored fod yn fuddiol o ran cyfrannu at ganlyniadau lles meddyliol ac emosiynol neu weithgarwch corfforol, bydd lefel y budd yn fach, yn enwedig o un digwyddiad. Gellir cael y buddion hyn hefyd mewn nifer o ffyrdd gwahanol.

---

[12] Dudman, J.; Hedges, C. & Loynes, C. (2019). the impact of residential experiences on pupil progress and attainment in year six (10 – 11 year olds) in England: a Learning Away comparative research Study:. Learning Away Consortium.

Byddem yn bryderus pe bai disgwyl y byddai effaith fesuradwy ar ddeilliannau iechyd a lles neu ar y galw am wasanaethau'r GIG o ganlyniad i'r cynigion yn y Bil hwn.